# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 15 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
6 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cymorth i Fusnesau Gweithgynhyrchu

**C6 Glyn Davies:** Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei roi i fusnesau gweithgynhyrchu yn y canolbarth i atal swyddi rhag mynd y tu allan i Gymru? (OAQ10317)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Nod y weinyddiaeth hon yw sicrhau bod Cymru gyfan ar ei hennill yn sgîl polisïau'r Cynulliad sy'n cefnogi ardaloedd sydd mewn angen cymdeithasol ac economaidd, gan arwain at greu swyddi o ansawdd.

Dyrannwyd cronfeydd ychwanegol i Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn iddynt fuddsoddi yng ngwaith paratoi safleoedd strategol i sicrhau y gallwn gynnig portffolio helaeth o adeiladau parod i ddarpar fuddsoddwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru ac asiantaethau economaidd eraill ystod eang o fesurau eraill sydd ar gael i fusnesau yng nghanolbarth Cymru. Mae'r asiantaethau'n cydweithio fel rhan o bartneriaeth canolbarth Cymru.

Mae Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru yn darparu llawer o gefnogaeth a chymorth i oresgyn materion sgiliau yng nghanolbarth Cymru. Shareaspect yw un cynllun; y cynllun cyd-noddi prentisiaid a sefydlwyd gan bartneriaid Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, sydd yn galluogi cwmnïau gweithgynhyrchu bach i gael gafael ar brentisiaid modern a'u cefnogi, pan na allant efallai gynnal prentisiaeth lawn. Caiff llawer ohonynt eu cyflogi gan y cwmnïau hyn ar ôl y brentisiaeth, a thrwy wneud hynny mae'r unigolyn a'r cwmni ar eu hennill.

### Effaith Treth Fusnes Leol ar Fuddsoddi

**C7 Alun Cairns:** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith bosibl treth fusnes leol ar fuddsoddi yng Nghymru? (OAQ10311)

**Michael German:** Nid oes asesiad o'r fath wedi cael ei wneud. Mae busnesau a grwpiau eraill wedi ymgynghori'n helaeth ar ein cynigion i roi pwerau cyfyngedig i gynghorau a fyddai'n eu galluogi i sefydlu treth leol ychwanegol, ac mae'r ymatebion hyn yn cael eu hystyried yn ofalus. Bydd cyflwyno treth leol yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol a byddwn eisiau sicrhau deddfwriaeth sydd yn sensitif i anghenion busnesau yng Nghymru.

### Meini Prawf Economaidd Amcan 1

**C8 Peter Rogers:** Wrth ba feini prawf economaidd y caiff ceisiadau am arian Amcan 1 eu hasesu? (OAQ10287)

**Michael German:** Mae'r angen i roi diwedd ar ddirywiad economaidd a hyrwyddo economi gynaliadwy yn sylfaen i'r strategaeth sydd yn rhaglen ddogfennu sengl Amcan 1 ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae gan y rhaglen rywfaint o feini prawf penodol ar gyfer asesu ceisiadau o'u cymharu â lefel

y budd economaidd a ddaw i'r rhanbarth yn eu sgîl. Mae'r meini prawf yn cynnwys creu swyddi, gwerth am arian, dylanwad i ddenu buddsoddiad ychwanegol—yn enwedig o'r sector preifat—natur strategol y ceisiadau a sut y mae'r prosiect yn cydweddu â chynlluniau eraill. Caiff prosiectau eu hasesu hefyd yn ôl sut y byddant yn cael effaith amgylcheddol gadarnhaol ar y rhanbarth neu sut y bydd gweithgareddau'r prosiect yn lleihau effaith negyddol.

**Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau**

**C9 Nick Bourne:** Beth sydd yn cael ei wneud i roi iawndal i fusnesau twristiaeth yng Nghymru am golli enillion yn ystod argyfwng presennol clwy'r traed a'r genau? (OAQ10319)

**Michael German:** Nid oes cynlluniau i roi iawndal i fusnesau twristiaeth, ond yr wyf yn gweithio gyda Bwrdd Croeso Cymru i sicrhau bod ymwelwyr posibl i Gymru yn derbyn y cyngor cywir. Mae Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn barod i ddechrau ymgyrch farchnata unedig i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru cyn gynted ag y daw'r adeg gywir.

**Hybu Entrepreneuriaeth a Menter**

**C10 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a wnaethpwyd i hybu mwy o enrepreneuriaeth a menter yng ngogledd Cymru? (OAQ10321)

**Michael German:** Yr ydym wedi comisiynu ac, ac yn dilyn hynny, yr ydym wedi cymeradwyo cynllun gweithredu'r strategaeth entrepreneuriaeth, a fwriedir i ddarparu fframwaith cydlynol ar gyfer hyrwyddo entrepreneuriaeth a menter drwy holl ranbarthau Cymru. Ar hyn o bryd mae panel gweithredu'n cael ei ail-lunio o grŵp llywio'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth. Bydd y panel gweithredu hwn ynghyd â chefnogaeth sylweddol cronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd, yn dilyn trywydd amrywiaeth o raglenni a gweithgareddau ymarferol a nodwyd eisoes yn y cynllun gweithredu. Un o gamau cyntaf y panel fydd clustnodi'r rheini sydd â'r potensial mwyaf o ran perthnasedd ac effaith, a sicrhau bod y rhain yn mynd rhagddynt yn ddiymdroi. Yn y cyfamser, mae rhai mesurau pwysig eisoes ar gael i gynorthwyo yma. Un fenter allweddol yw'r rhaglen Cychwyn Busnesau Newydd, sydd yn cael ei rheoli gan y cynghorau hyfforddi a menter ar hyn o bryd. Nod y rhaglen yw helpu mentrau da newydd o ansawdd i ddechrau, tyfu a goroesi yn y tymor hir. Mae hyn yn berthnasol ym mhob cwr o Gymru. Mae nifer o fentrau ar waith yng ngogledd Cymru, gan gynnwys y Siop Gytundebau, a reolir gan bartneriaeth o fudiadau cefnogi busnesau, sydd yn anelu at adeiladu cysylltiadau rhwng prynwyr a chyflenwyr lleol ac yn hyrwyddo rhyng-fasnachu. Mae ganddi 2,500 o aelodau yn barod ac mae'n dal i dyfu ac yn cael effaith ffafriol ar dwf mentrau bach ac ar yr economi lleol.

**Prosiectau Amcan 1 yn Sir Ddinbych**

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd bwrw ymlaen â phrosiectau Amcan 1 yn Sir Dinbych dros y misoedd diwethaf? (WAQ10303)

**Michael German:** Yn rownd fidio mis Medi, cyflwynodd partneriaeth leol Sir Ddinbych 15 prosiect cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd, dau brosiect cronfa arweiniad a gwarant amaethyddol Ewropeaidd a phum prosiect cronfa gymdeithasol Ewrop. Tynnwyd pedwar prosiect cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd yn ôl. Mae 11 yn bwrw ymlaen ar hyn o bryd. O'r 11 hynny, cymeradwywyd saith gyda grantiau gwerth dros £3 miliwn. Ar ben y gymeradwyaeth ar gyfer y prosiectau lleol, cymeradwywyd nifer o brosiectau ar gyfer gogledd orllewin Cymru i gyd a fydd hefyd o fudd i ardal sir Ddinbych.

**Gwneud Cais am Arian Amcan 1**

**C12 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog adolygu'r ffordd y cyhoeddir gwybodaeth am sut i wneud cais am arian Amcan 1? (WAQ10286)

**Michael German:** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi bod yn rhoi rhaglen ledaenu ar waith sydd yn cynnwys gweithdai, seminarau a chynadleddau—gan dargedu partneriaethau lleol a rhanbarthol—arweiniad ar bostio uniongyrchol at gysylltiadau y gwyddys amdanynt, hyrwyddo gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gyffredinol fel ffynhonnell wybodaeth ac arweiniad, rhoi erthyglau yn y cyfryngau ac annerch cynadleddau mudiadau eraill, yn enwedig yn y sector preifat. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar 19 Mawrth, disgwyliwn y gallwn gyhoeddi gwybodaeth derfynol am y broses ymgeisio. Ar ôl hynny caiff canllaw syml i Amcan 1 ei chynhyrchu a'i dosbarthu.

**Contractau Cadwraeth Ynni**

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** Pa ganllawiau sydd yn bodoli i sicrhau bod arbenigedd Cymru'n cael ei adlewyrchu yn y ffordd y caiff contractau cadwraeth ynni eu dyfarnu? (WAQ10345) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hybu Buddsoddi mewn Gweithgynhyrchu**

**C14 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch arian ychwanegol ar gyfer seilwaith er mwyn hybu buddsoddi mewn gweithgynhyrchu? (WAQ10354) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynhwysedd Band Llydan**

**C15 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd gosod cynhwysedd band llydan ar ardal Amcan 1? (WAQ10355) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sefyllfa'r Diwydiant Dur**

**C16 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y diwydiant dur yng Nghymru? (OAQ10343)

**Michael German:** Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror rhwng Corus a phwyllgor cyd-drefnu dur yr undebau llafur, cytunwyd i gynnal cyfnod o ymgynghori lleol rhwng Corus â'r undebau i drafod cynigion undebau i helpu i liniaru a lleihau effaith y colli swyddi arfaethedig a gyhoeddwyd gan Corus ar 1 Chwefror. Mae'r trafodaethau lleol hyn yn parhau a byddant yn cyrraedd eu hanterth mewn cyfarfod pellach rhwng Corus a'r undebau ar 27 Mawrth. Ar yr un pryd, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys swyddogion o'r Cynulliad ac adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth, yr undebau a Corus i drafod amrywiaeth o faterion manwl sydd yn gysylltiedig â chefnogi'r bobl yr effeithir arnynt o bosibl. Byddwn yn parhau i weithio'n glòs gyda phawb sydd yn gysylltiedig am gyn hired ag y bo rhaid.

**Grŵp Amcan 2 Canolbarth a Dwyrain Cymru**

**C17 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod grŵp Amcan 2 canolbarth a dwyrain Cymru yn cynnwys cynrychiolaeth o bob plaid? (OAQ10320)

**Michael German:** Sefydlwyd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 2 gan barchu egwyddor cynrychiolaeth deg o'r sector cyhoeddus, y partneriaid cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Yn yr un modd â phwyllgorau monitro rhaglenni Amcan 1 a 3, dyrannwyd dau le i'r Cynulliad ar y pwyllgor Amcan 2. Byddai dyrannu mwy na dau le i'r Cynulliad yn golygu na fyddai lle i nifer o gynrychiolwyr pwysig o'r sector cyhoeddus. Mae John Griffiths a Kirsty Williams, a benodwyd ar y pwyllgor, yn aelodau etholaethau yn ardal Amcan 2, ac maent yn gyfrifol am rannau trefol a gwledig yn ardal y rhaglen.

**Cynnyrch Mewnwladol Crynswth**

**C18 Alun Cairns:** Pa bolisïau penodol y mae'r Gweinidog yn eu cynnig i gau'r bwlch mewn cynnyrch mewnwladol crynswth mewn rhai rhannau o Gymru sydd angen dwbl cyfradd twf y DU? (OAQ10312)

**Michael German:** Mae targedau'r strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol gyntaf yn rhagweld y bydd y bwlch mewn cynnyrch mewnwladol crynswth y pen gyda'r Deyrnas Unedig yn lleihau dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ac mae'r broses ymgynghori ar waith. Mae'r ddogfen berthnasol yn cynnwys yr opsiynau polisi.

**Ffatri Dewhirst, Abergwaun**

**C19 Richard Edwards:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru o safbwynt ffatri Dewhirst yn Abergwaun? (OAQ10293) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cyflogaeth**

**C20 Pauline Jarman:** Pryd y caiff y Cynulliad gyfle i drafod y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer cyflogaeth? (OAQ10353) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mwy o Waith i Ganol De Cymru**

**C21 Jonathan Morgan:** Pa bolisïau y mae'r weinyddiaeth yn mynd ar eu trywydd i gael mwy o waith i Ganol De Cymru? (OAQ10323)

**Michael German:** Ymgynghorir ar y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, a'r gwaith a wnaethpwyd cyn hynny, yn rhoi glasbrint sydd yn her i economi Cymru i gyd, nid Canol De Cymru yn unig. Yn sylfaen i hyn oll bydd gwaith parhaus Tîm Cymru: y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru, y cynghorau hyfforddi a menter—a adwaenir fel ELWa o 1 Ebrill 2001 ymlaen—ac asiantaethau eraill. Yr ydym yn gweithio i ddenu swyddi o'r ansawdd uchaf, datblygu gweithlu sydd â sgiliau da a hybu diwylliant entrepreneuraidd o Fôn i Fynwy.

**Canllawiau ar gyfer Polisïau Cyflogaeth**

**C22 Elin Jones:** Pryd y cafodd y Gweinidog ganllawiau diweddaraf y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer polisïau cyflogaeth? (OAQ10348) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hyrwyddo Gweithgarwch Economaidd**

**C23 Jonathan Morgan:** Pa bolisïau y mae'r weinyddiaeth yn mynd ar eu trywydd i hyrwyddo gweithgarwch economaidd yng Nghanol De Cymru? (OAQ10322)

**Michael German:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn llafar heddiw (OAQ10323)

**Rhaglen Tlodi Tanwydd**

**C24 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar i ba raddau y defnyddiwyd arbenigedd a seilwaith Cymru wrth gyflwyno'r rhaglen tlodi tanwydd? (OAQ10347) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynhwysedd Band Llydan yng Nghymru Wledig**

**C25 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar osod cynhwysedd band llydan yn y Gymru wledig? (OAQ10344) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynnyrch Gweithgynhyrchu Cymreig ac Allforion**

**C26 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth ar gynnyrch gweithgynhyrchu Cymreig a'r allforion dros y pum mlynedd diwethaf? (OAQ10289)

**Michael German:** Cyflwynir gwybodaeth am gynnyrch gweithgynhyrchu yn y datganiad ystadegol cyntaf, 'Mynegai Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru ar gyfer trydydd chwarter 2000'. Gellir dod o hyd i gopi o'r datganiad hwn yn Llyfrgell Aelodau'r Cynulliad ac ar y fewnrwyd yn http://assembly/aegis/Subject%20Index/Data%20Wales/headlinestatisticswales/Economy/2001/hdw2001 01112.a_e.htm. Dim ond yn ôl i 1999 mae gwybodaeth ar gael am allforion o Gymru ac nid yw'r data a gyhoeddwyd wedi ei rannu ar gyfer pob sector diwydiannol. Fodd bynnag, yn amodol ar asesiad ansawdd, byddwn yn prynu'r data manwl hwn gan Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi erbyn diwedd Mawrth 2001. Caiff dadansoddiad o'r data ei osod ar fewnrwyd y Cynulliad.

**Mentrau Amcan 1 yng Nglynebwy**

**C27 William Graham:** A all y Gweinidog amlinellu ystod a nifer y mentrau Amcan 1 sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd neu sydd o dan ystyriaeth yn ardal Glynebwy? (OAQ10341)

**Michael German:** Yn rownd fidio mis Medi, cyflwynodd y bartneriaeth leol ar gyfer ardal Blaenau Gwent 34 o brosiectau i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru eu hystyried. Yr oedd y ceisiadau hyn yn cynnwys 28 prosiect cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd a chwe phrosiect cronfa gymdeithasol Ewrop. Tynnwyd pum prosiect yn ôl yn dilyn hynny.

Hyd yn hyn, cymeradwywyd grantiau cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd gwerth £1.337 miliwn gyda'i gilydd dan Flaenoriaeth 1, ar gyfer dau brosiect a fydd o fudd penodol i Glynebwy. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer gwaith isadeiledd yn Waun-y-Pond ac adeiladu unedau diwydiannol ar Lwyfandir A, Victoria. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ceisiadau prosiect—un ar bymtheg gyda'i gilydd—dan Flaenoriaeth 3, sef adfywio economaidd cymunedol. O'r 16 hyn, gall chwech ohonynt fod o fudd i Glynebwy ac mae'r rhain yn cael eu gwerthuso'n fanwl ar hyn o bryd. Nododd y bartneriaeth leol bod y rhan fwyaf o gymunedau yn rhanbarth etholiadol De Glynebwy a Gogledd Glynebwy yn gymwys i dderbyn cefnogaeth dan y trefniadau targedu gofodol. Fodd bynnag, mae'n adolygu ei chefnogaeth ar gyfer pob prosiect a gyflwynwyd dan Flaenoriaeth 3 ar hyn o bryd, gyda golwg ar y dyraniadau mynegol sydd erbyn hyn ynghlwm i'r flaenoriaeth benodol hon.

**Blaenau Ffestiniog**

**C28 David Davies:** Beth yw swyddogaeth Blaenau Ffestiniog yn niwydiant twristiaeth gogledd orllewin Cymru? (OAQ10309)

**Michael German:** Mae Blaenau Ffestiniog yn chwarae rhan bwysig yn niwydiant twristiaeth Cymru gyfan, nid yng ngogledd orllewin Cymru yn unig. Mae Blaenau Ffestiniog wedi'i leoli yn un o fannau mwyaf prydferth Cymru ac mae gan yr ardal safle unigryw yn nhreftadaeth ddiwydiannol y wlad. Mae hefyd yng nghalon ardal Gymraeg ei hiaith, agwedd o'r diwylliant lleol a hyrwyddir gan Fwrdd Croeso Cymru. Mae atyniadau ymwelwyr yn yr ardal yn cynnwys Ogofau Llechwedd a Rheilffordd Ffestiniog.

**Gweithredu Cynlluniau Amcan 1 (Rhondda Cynon Taf)**

**C29 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ynghylch gweithredu cynlluniau Amcan 1? (OAQ10300) [W] ***Tynnwyd yn ôl***

**Gweithredu Prosiectau Amcan 1 (Gogledd Cymru)**

**C30 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch datblygiad gweithredu prosiectau Amcan 1 yng ngogledd Cymru dros y misoedd diwethaf? (OAQ10304)

**Michael German:** Yn rownd fidio mis Medi, cyflwynodd partneriaeth leol Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych 43 phrosiect cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd, naw cronfa arweiniad a gwarant amaethyddol Ewropeaidd a 24 prosiect cronfa gymdeithasol Ewrop. Tynnwyd deg prosiect cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd yn ôl yn dilyn hynny ac mae 33 prosiect cronfa datblygu rhanbarthol

Ewropeaidd yn mynd rhagddynt. O'r 33 hyn, cymeradwywyd 13 ohonynt, gyda grantiau gwerth dros £9 miliwn.

Ar ben yr uchod, cymeradwywyd nifer o brosiectau ar gyfer gogledd orllewin Cymru i gyd gyda grantiau gwerth dros £20 miliwn. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r parth cyflogaeth a gwasanaethau Cyswllt Busnes, yn ogystal â hyfforddi'r gweithlu a'r di-waith.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Ariannu Prosiectau Adfywio Cymunedau

**C8 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffynonellau ariannol sydd yn bod i gyd-ariannu prosiectau adfywio cymunedau? (OAQ10336)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf fydd y brif ffynhonnell arian gan y Cynulliad Cenedlaethol i fynd i'r afael ag adfywio cymunedau yng Nghymru.

Agwedd bwysig o'r rhaglen hon yw bod y partneriaethau a sefydlir gan y cymunedau perthnasol yn chwilio am ffynonellau nawdd eraill i gyd-ariannu eu prosiectau. Ffynhonnell amlwg yw cronfeydd strwythurol Ewrop.Gallai Rhoi Cymunedau'n Gyntaf roi arian cyfatebol at hyn.

Yr ydym wedi comisiynu ymchwil yn y maes hwn, sydd wedi arwain at 'Adfywio Cymunedol: Adolygiad o'r Gwerth Gorau'. Yn yr adolygiad hwn ceir gwybodaeth am ffynonellau nawdd ar gyfer prosiectau adfywio cymunedol yng Nghymru. Mae'r adroddiad blynyddol ar gynhwysiant cymdeithasol hefyd yn cynnwys manylion am ffynonellau nawdd yn y Cynulliad a allai gyd-ariannu prosiectau o'r fath yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

### Trafod ar Gymwysiadau i'r Polisi Ariannol

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y trafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda'r awdurdodau perthnasol ar lefel y DU, trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ynghylch y cymwysiadau i'r polisi arianyddol sy'n effeithio ar Gymru? (OAQ10331)

**Edwina Hart:** Pwyllgor Polisi Arianyddol Banc Lloegr sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros osod cyfraddau llog tymor byr i gyflawni targed chwyddiant Llywodraeth y DU. Mae gan y Pwyllgor hwn ddyletswydd i gadw mewn cysylltiad â phob rhanbarth a sector yn economi'r DU drwy swyddfeydd ac asiantwyr rhanbarthol y banc. Mae aelodau'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn ymweld â Chymru yn rheolaidd ac mae'r asiant dros Gymru wedi cwrdd â swyddogion y Cynulliad ac Aelodau o'r Cynulliad sawl gwaith.

### Adeiladwaith Cyllid Llywodraeth Leol

**C10 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adeiladwaith cyllid llywodraeth leol? (OAQ10339) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Ymchwil a Datblygu mewn Prifysgolion

**C11 Phil Williams:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i ddyrannu arian ychwanegol ac ar wahân i ehangu gwaith ymchwil a datblygu ym mhrifysgolion Cymru? (OAQ10332) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyllideb y Cynulliad (Gwerth am Arian)

**C12 Peter Black:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod pob rhan o Gyllideb y Cynulliad yn rhoi gwerth am arian? (OAQ10297)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymgymryd â rhaglen weithredu eang ac amrywiol i wella gwerth am arian yn ein holl wariant. Rhai o'r camau a gymerir yw: ymgyrch fawr i gael gwerth gwell o ran sut y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn caffael ei nwyddau a'i wasanaethau; sicrhau bod gan y Cynulliad a phob corff cyhoeddus sydd yn cael ei noddi ganddo, gynlluniau rheoli asedau; adolygu'r holl gyrff a noddir gennym; a rhaglen i werthuso polisïau, rhaglenni a chynlluniau grant y Cynulliad. Yr ydym hefyd wedi cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer yr NHS yng Nghymru a'r drefn Gwerth Gorau ar gyfer awdurdodau lleol.

**Diweddaru'r Stoc Tai**

**C13 Janet Ryder:** A yw'r Gweinidog wedi cysylltu â'r awdurdodau priodol ar lefel y DU, trwy'r Ysgrifennydd Gwladol, i geisio newid telerau gofyniad arian parod y sector cyhoeddus (gofyniad benthyca'r sector cyhoeddus gynt) er mwyn i awdurdodau lleol allu diweddaru eu stoc dai yng Nghymru? (OAQ10334) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Goblygiadau Mesurau Cyllidebol**

**C14 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau y mesurau cyllidebol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganghellor y Trysorlys, Gordon Brown, i Gymru? (OAQ10279)***Tynnwyd yn ôl.***

**Siambr Newydd y Cynulliad**

**C15 Alun Cairns:** Faint o'r gyllideb wrth-gefn y mae'r Gweinidog yn disgwyl ei defnyddio i adeiladu siambr newydd y Cynulliad? (OAQ10314)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar yn y broses adeiladu i amcangyfrif faint o'r ddarpariaeth sydd wrth gefn a ddefnyddir. Bydd y grŵp llywio polisi a minnau'n monitro'r gwariant ar adeilad y Cynulliad yn ofalus i sicrhau bod pob dim posibl yn cael ei wneud i gwblhau'r prosiect o fewn darpariaeth y gyllideb.

**Adroddiad 'Just Pay'**

**C16 Karen Sinclair:** Sut gall y Cynulliad helpu i fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad y Comisiwn Cyfle Cyfartal 'Just Pay' yng Nghymru? (OAQ10283)

**Edwina Hart:** Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal i godi ymwybyddiaeth ynghylch cyflog cyfartal. Byddwn yn cynnal adolygiad cyflog cyfartal eleni eto, a bydd holl staff y Cynulliad yn dod dan sylw'r adolygiad. Disgwyliaf i'r cyrff yr ydym yn eu noddi gymryd camau tebyg. Yr wyf yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod yr hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni yn y Cynulliad. Mae fy mryd ar gymryd camau pellach yn y maes hwn, fel y gallwn barhau i osod esiampl i eraill ei dilyn.

**Ymrwymiadau Ariannol y Cytundeb Partneriaeth**

**C17 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni ymrwymiadau ariannol y cytundeb partneriaeth? (OAQ10306) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith y Gyllideb ar Gymru**

**C18 Christine Gwyther:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar sut y bydd y mesurau a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ei gyllideb ar 7 Mawrth yn effeithio ar Gymru? (OAQ10282)***Tynnwyd yn ôl.***

**Cymwysiadau i'r Polisi Ariannol**

**C19 Cynog Dafis:** A rydd y Gweinidog adroddiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael â'r awdurdodau perthnasol ar lefel y DU, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar gymwysiadau i'r polisi ariannol sy'n effeithio ar Gymru? (OAQ10330)***Tynnwyd yn ôl.***

**Arferion Cyflogau Cyfartal**

**C20 Christine Gwyther:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd cyfleoedd cyfartal, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arolwg diweddar NOP Business o arferion cyflogau cyfartal yng Nghymru? (OAQ10281)***Tynnwyd yn ôl.***

**Asesiadau Gwariant Safonol i Lywodraeth Leol**

**C21 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr asesiadau gwario safonol i lywodraeth leol? (OAQ10338) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyflogau Cyfartal**

**C22 Richard Edwards:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd cyfleodd cyfartal, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal ynghylch cyflogau cyfartal i ddynion a menywod? (OAQ10280)***Tynnwyd yn ôl.***

**Llwybrau Cyhoeddus**

**C23 Glyn Davies:** Faint o awdurdodau lleol Cymru sydd yn sicrhau bod 100 y cant o'u llwybrau cyhoeddus yn agored? (OAQ10324)

**Edwina Hart:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn casglu'r wybodaeth hon.

**Cyllid i Ffermwyr sydd wedi Dioddef o Lifogydd**

**C24 David Davies:** Pa gamau a gymerwyd i sicrhau bod cyllid untro ychwanegol ar gael i ffermwyr sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r llifogydd diweddar? (OAQ10307)

**Edwina Hart:** Rydym wedi archwilio'r holl opsiynau ac wedi dod i'r casgliad nad oes cyllid untro ychwanegol ar gael i ffermwyr. Fodd bynnag, rydym wedi cymryd camau a fydd yn cynorthwyo ffermwyr, fel cyllido costau ychwanegol Asiantaeth yr Amgylchedd am ymateb ac atgyweirio ar frys yn sgîl y llifogydd y gaeaf hwn a dyrannu £25 miliwn o gymorth ar gyfer gwaith cyfalaf amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffynfeydd morol dros y tair blynedd nesaf. Bydd y mesurau hyn o fudd i'r ffermwyr gan eu bod yn ailsefydlu banciau llifogydd i amddiffyn tir amaethyddol.

Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig hefyd wedi cymryd camau i gynorthwyo ffermwyr, camau sydd yn cyd-fynd â deddfwriaeth Ewropeaidd gan gynnwys diogelu rhan-ddirymiadau gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer tir âr yr effeithiwyd arno gan y llifogydd.

**Helpu Perchnogion Tai PRC**

**C25 Nicholas Bourne:** A wnaiff y Gweinidog glustnodi arian ychwanegol ac ar wahân o gyllideb y Cynulliad i helpu perchnogion tai a wnaed o goncrit cyfnerthedig rhag-gastiedig (PRC) i wneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar eu cartrefi? (OAQ10315)

**Edwina Hart:** Byddai nawdd ar gyfer y math hwn o waith yn dod o ddyraniad cyfalaf tai yr awdurdod lleol. Nid yw'r Cynulliad yn pennu sut y dylai cynghorau ddefnyddio'r cyfalaf cyffredinol sydd ar gael

iddynt. Cyfrifoldeb yr awdurdodau yw pennu blaenoriaethau lleol ar gyfer defnyddio'r adnoddau hynny, gan gynnwys mynd i'r afael â phroblemau gyda thai PRC.

**Clwy'r Traed a Genau (Cyllid i Helpu Cymunedau Gwledig)**

**C26 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog glustnodi arian ychwanegol ac ar wahân o gyllideb y Cynulliad i helpu cymunedau gwledig yn sgil yr achosion diweddar o glwy'r traed a'r genau? (OAQ10316)

**Edwina Hart:** Mae'n rhy gynnar i asesu ffurf na maint unrhyw gymorth y dichon bod ei angen ar gymunedau gwledig yn dilyn yr achosion diweddar o glwy'r traed a'r genau.

**Cynnal a Chadw Tai Cyngor**

**C27 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda gweinidogion Llywodraeth San Steffan ynghylch dulliau eraill, ar wahân i'r fenter cyllid preifat, o gynnal a chadw tai cyngor? (OAQ10298) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwerth Gorau**

**C28 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'r arbedion sy'n deillio o'r cynllun Gwerth Gorau yn fwy na chostau gweithredu a gwerthuso'r cynllun i awdurdodau lleol? (OAQ10326)

**Edwina Hart:** Yn yr un modd â phob newid sylfaenol o ran sut y gwneir pethau, mae costau cychwynnol cysylltiedig. Daw manteision llawn Gwerth Gorau o ran arbedion net a gwelliannau mewn ansawdd a gwasanaeth i'r fei dros y tymor hir.

**Fformwla Barnett**

**C29 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch priodoldeb fformwla Barnett i anghenion presennol Cymru? (OAQ10299) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyllid ar gyfer Strategaethau Cymunedol**

**C30 Janet Ryder:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i ddod â'r gwahanol ffynonellau cyllid sydd ar gael ar gyfer strategaethau cymunedol ynghyd? (OAQ10332) ***Tynnwyd yn ôl.***